



Swyddfa dros Reoli Niwclear

**Adroddiad Safle Chwarterol
y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)
ar gyfer
Gorsaf Bŵer Wylfa**

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Ionawry – 31 Mawrth 2017

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i drefnu bod gwybodaeth ynghylch gweithgareddau arolygu a rheoleiddio'n perthyn i'r hyn uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau'n chwarterol i aelodau ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a hefyd maent ar gael ar y wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/llc/>).

Fel arfer mae arolygwyr ONR yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwneud ymholiadau ynghylch materion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Wylfa – CHW. 1
Cyf. TRIM: 2017/134582

TABL CYNNWYS

1	AROLYGIADAU.....	3
2	MATERION ARFEROL.....	3
3	MATERION ANARFEROL.....	4
4	GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL.....	4
5	NEWYDDION GAN ONR.....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
6	CYSYLLTIADAU.....	

Error! Bookmark not defined.

1 AROLYGIADAU

1.1 Dyddiadau arolygu

Fe wnaeth yr arolygydd safle ONR arolygiadau ar y dyddiadau dilynol yn ystod y chwarter:

11, 12 ac 13 Ionawr 2017
7, 8, 9, 10 ac 11 Chwefror 2017
14, 15, 16, aa 17 Mawrth 2017

Fe wnaeth Arolygydd diogelu ymbelydredd ONR a'r arolygydd peirianeg fecanyddol arolygiadau ar 13 Chwefror 2017.

2 MATERION ARFEROL

2.1 Arolygiadau

Gwneir arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiad â:

- yr amodau a atodir gan ONR i'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 (IRR99) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithredoedd y trwyddedwr ar y safle mewn cysylltiad â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau a atodir i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithredu fel ei gilydd.

Yn y cyfnod hwn, roedd arolygiadau o (safle/gorsaf) yn cwmpasu'r dilynol:

- archwilio, cynnal a chadw, arolygu a phrofi;
- rheoli gweithrediadau gan gynnwys rheoli a goruchwyllo;
- addasiadau i offer, cyfarpar ac achosion diogelwch;
- digwyddiadau ar y safle;
- diogelwch radiolegol;
- rheoli gwastraff ymbelydrol;
- parodrwydd am argyfwng;
- datgomisiynu;

Yn gyffredinol, fe wnaeth ONR farnu bod y trefniadau oedd wedi'u gwneud a'u gweithredu gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle ystyriwyd bod angen gwelliannau, fe wnaeth y trwyddedai ymrwymadau boddhaol i drafod y problemau, a bydd yr arolygydd safle'n monitro cynnydd yn ystod ymweliadau'r dyfodol. Lle bydd angen, bydd ONR yn cymryd camau gorfodi rheoleiddiol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau unioni yn ôl amserlenni rhesymol ymarferol.

Cell Storio Sych 4 (DSC4) – Adennill Gwastraff Lefel Ganolraddol (ILW)

Mae Magnox Cyf yn ymgymryd â rhaglen o waith i adennill ILW sy'n weddill o Gell Storio Sych 4 yn becynnau gwastraff wedi'i peiriannu sy'n addas i'w storio yn y tymor hir.

Mae'r rhaglen wedi'i datblygu'n dda a mae bron wedi cyrraedd parodrwydd i weithredu. Mae'r cyfarpar adennill wedi'i brofi mewn cyfleuster profi oddi ar y safle ac ar hyn i bryd mae'n cael ei osod a'i brofi yn DSC4. Mae ONR yn ymgysylltu'n agos â'r prosiect, gydag arolygiad o'r cyfleuster DSC4 yn Chwefror 2017 a thelegynadleddau pythefnosol i drafod cynnydd. Mae ONR yn disgwyl cynnal arolygiad am barodrwydd tuag at ddiwedd Mai 2017 er mwyn sicrhau bod Magnox Cyf wedi ymfodloni y gall y prosiect symud ymlaen yn ddiogel.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedeion gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anarferol. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau a gymerir i weithredu unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Y materion a digwyddiadau gwerth eu nodi yn ystod y cyfnod oedd:

Methiant Cydiwr Codi Caead 5 modfedd Cap Polyn

Tra'n cynnal gwiriad codi ar blwg cau 5" ar Adweithydd 1 trwy ddefnyddio cydiwr mecanyddol a bloc cadwyn llaw yn hongian o'r craen Cap Polyn, gweithredwyd botwm 'codi gwindas' crog y craen yn anfwriadol, a achosodd y i'r cydiwr gweithredol afael ar y botwm codi ar y plwg 5" a arweiniodd at safnau'r cydiwr yn torri a'r cydiwr yn cael ei rwygo i ffwrdd o'r plwg. Ataliwyd y gwaith codi ar unwaith; cafodd y cyfarpar ei roi mewn cwarantyn gan y trwyddedai a rhoddwyd gwaharddiad ar symud caead 5" trwy ddefnyddio craen cap polyn. Mae Magnox Cyf. yn ymgymryd ag ymchwiliad. Nid oedd y digwyddiad yn cyflwyno perygl uniongyrchol i ddiogelwch niwclear a Magnox Cyf. nag amhariad ar weithgareddau datlenwi. Bydd arolygydd safle enwebedig ONR yn adolygu canlyniad ymchwiliad Magnox Cyf. â golwg ar gadarnhau y caiff unrhyw wersi a nodir eu cyhoeddi ar draws y sefydliad er mwyn lleihau'r risg y bydd pethau tebyg yn digwydd eto.

4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL

Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffurfiad â gofynion rheoleiddiol. O dan amodau trwydded safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddiol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod rhyw fath o gamau'n cael eu cymryd; fel arfer gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant ymddangos ar ffurfiau eraill. Ar ben hynny, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Cyhoeddwyd y LIs a Hysbysiadau Gorfodi dilynol yn ystod y cyfnod:

Tabl 1
Offer Trwyddedu a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan ONR yn ystod y cyfnod hwn

Dyddiad	Math	Cyfeirnod	Disgrifiad
23/02/2017	Cymeradwyaeth	LI 570	Yn ddiweddar mae ONR wedi ailbenderfynu'r parth cynllunio argyfwng oddi ar y safle sy'n ofynnol o dan Reoliadau Parodrwydd Argyfwng Ymbelydredd a Gwybodaeth Gyhoeddus 2001 (REPPiR) i amddiffyn y cyhoedd. O ganlyniad, mae'r parth cynllunio argyfwng manwl sydd wedi ail-benderfynu a'r parth gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer Wylfa wedi'u hymgorffori mewn cynllun argyfwng oddi ar y safle gan Gyngor Sir Ynys Môn. O ganlyniad i'r adolygiad i'r cynllun argyfwng oddi ar y safle mae'r Trwyddedai wedi argymhell newidiadau i'r Cynllun Argyfwng Cymeradwy Wylfa i adlewyrchu'r ailbenderfyniad REPPiR.

			Mae asesiad ONR o'r Cynllun Argyfwng Wylfa'n cadarnhau ei fod yn gyson â'r cynllun argyfwng oddi ar y safle sydd wedi'i adolygu a bod y trwyddedai wedi cydymffurfio â'i drefniadau a wnaed o dan amodau trwydded y safle. Ymhellach, nid yw'r cyflwyniad cyfredol yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r galluogrwydd gweithredol ymateb argyfwng a mae'n newid gweinyddol yn unig i adlewyrchu'r newidiadau i'r Cynllun Argyfwng oddi ar y safle
--	--	--	---

5 NEWYDDION GAN ONR

Diweddariad ar yr adweithwyr newydd:

- Fe wnaeth ONR dderbyn cais gan y Llywodraeth i ddechrau'r broses Aseiad Dyluniad Generig ar gyfer yr UK HPR1000 yn Ionawr. Erbyn hyn mae'r adweithydd yng Ngham 1 o'r broses GDA.
- Ar 30 Mawrth, fe wnaeth ONR gyhoeddi Cadarnhad Derbyn Dyluniad ar gyfer yr adweithydd niwclear AP1000®, a ddyluniwyd gan Westinghouse. Roedd y rheoleiddwr angen i'r problemau GDA gael eu datrys cyn cadarnhau addasrwydd y dyluniad.
- Fe wnaeth ONR roi ei ganiatâd cyntaf i ddechrau'r gwaith adeiladu ar safle trwyddedig Hinkley Point C. Mae'r caniatâd yn cynnwys gosod y concriid strwythurol ar gyfer y strwythur niwclear cyntaf cysylltiedig â diogelwch ar y safle.
- Ar 31 Mawrth, fe wnaeth Horizon Nuclear Power gyflwyno ei gais am drwydded safle niwclear i adeiladu ar Ynys Môn.

Datganiad chwarterol ar ddigwyddiadau sifil

Fe wnaeth ONR gyhoeddi ei ddatganiad chwarterol ar ddigwyddiadau sifil gan adrodd ar y cyfnod Hydref-Rhagfyr 2016. Roedd un digwyddiad oedd yn diwallu meini prawf adrodd Gweinidogol yn Dounreay yn ymwneud â halogi dillad gweithwyr. Nid oedd unrhyw dderbyniad canfyddadwy o ddeunydd ymbelydrol gan unrhyw un o'r bobl yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

Mae Gwaith Rheoleiddio ONR o Bwys

Gellir gweld cipolwg ar waith ONR fel rheoleidiwr annibynnol o'r diwydiant niwclear yn Mae Gwaith Rheoleiddio ONR o Bwys. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm>) yn adrodd ar y themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddiol ONR ac yn darparu diweddariad ar y newidiadau parhaus yn ONR. <http://www.onr.org.uk/index.htm>. I weld y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR ewch i'r wefan a chofrestru i dderbyn ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

6 CYSYLLTIADAU

Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersey
L20 7HS
gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© *Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2017*

Os dymunwch aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.
Cyhoeddwyd 04/17

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, mae'r copi electronig ar y wefan ONR yn aros fel y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu argraffu'n golygu nad yw'r ddogfen hon wedi'i rheoli.